

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cerbyttfordd tua'r Dwyrain rhwng
Cyffordd 33 (Llaneurgain) a
Chyffordd 33b (Ewloe), Sir y
Fflint) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2019

The A55 Trunk Road (Eastbound
Carriageway between Junction 33
(Northop) & Junction 33b (Ewloe),
Flintshire) (Temporary Prohibition
of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2019

Gwnaed 30 Ionawr 2019
Yn dod i rym 4 Chwefror 2019

Made 30 January 2019
Coming into force 4 February 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbyttfordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 33 (Llaneurgain) a Chyffordd 33b (Ewloe), Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 4 Chwefror 2019.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway between Junction 33 (Northop) & Junction 33b (Ewloe), Flintshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 4 February 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2. In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 4 Chwefror 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Ionawr 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Llaneurgain) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 33b (Ewloe), Sir y Fflint.

Y darnau o’r ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Llaneurgain) a Chyffordd 33a (Northop Hall).

Y darn o’r ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 33a (Northop Hall).

“the trunk road” means the A55 Chester to Bangor Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 20:00 hours on 4 February 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

30 January 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 33 (Northop) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 33b (Ewloe), Flintshire.

The lengths of the eastbound entry slip roads at Junction 33 (Northop) and Junction 33a (Northop Hall).

The length of the eastbound exit slip road at Junction 33a (Northop Hall).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CERBYTFFORDD TUA'R DWYRAIN RHWNG
CYFFORDD 33 (LLANEURGAIN) A
CHYFFORDD 33B (EWLOE), SIR Y FFLINT)
(GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A
CHERDDWYR DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 33 (Llaneurgain) a Chyffordd 33b (Ewloe), Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar:

i. y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Llaneurgain) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33b (Ewloe);

ii. y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 33 (Llaneurgain);

iii. y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 33a (Northop Hall).

Y llwybr arall yw gadael y gefnffordd wrth Gyffordd 33 a dilyn yr A5119 i'r Fflint, yr A548 a Shotwick Road tuag at Queensferry er mwyn ymuno â'r A494 wrth Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy a mynd tua'r de-orllewin i ailymuno â'r A55.

iv. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 33a (Northop Hall).

Y llwybr arall yw mynd ar Brookside Lane, y B5125 Stamford Road/Ffordd Treffynnon a'r B5127 Old Mold Road er mwyn ymuno â'r A494 wrth Gyfnewidfa Dewi Sant, Ewloe.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym ar 4 Chwefror 2019 ac y byddant yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 9 Chwefror 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

**THE A55 TRUNK ROAD (EASTBOUND
CARRIAGEWAY BETWEEN JUNCTION 33
(NORTHOP) & JUNCTION 33b (EWLOE),
FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION
OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS)
ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 33 (Northop) and Junction 33b (Ewloe), Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on:

i. the length of the A55 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 33 (Northop) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 33b (Ewloe);

ii. the length of the A55 eastbound entry slip road at Junction 33 (Northop);

iii. the length of the A55 eastbound exit slip road at Junction 33a (Northop Hall).

The alternative route is to leave the trunk road at Junction 33 and follow the A5119 to Flint, A548 and Shotwick Road towards Queensferry to join the A494 at Deeside Park Interchange and proceed south-westbound to rejoin the A55.

iv. The entire length of the A55 eastbound entry slip road at Junction 33a (Northop Hall).

The alternative route is via Brookside Lane, the B5125 Stamford Road/Holywell Road and B5127 Old Mold Road to join the A494 at St David's Interchange, Ewloe.

The temporary prohibitions are expected to come into force on 4 February 2019 and operate overnight (20:00 – 06:00 hours) until 9 February 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government